

CRYNODEB GWEITHREDOL

Nod cyffredinol ein strategaeth ynglŷn â chyflenwad a galw yw cyrraedd a chynnal y lefel o gapasiti dros ben sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein lefelau targed o wasanaeth am y gost leiaf i gwsmeriaid, tra'n isafu'r effaith ar yr amgylchedd. Rydym yn bwriadu gwneud hyn yn rhannol drwy leihau gollyngiadau a rheoli'r galw am ddŵr, ac yn rhannol drwy ddatblygu adnoddau newydd.

Yn y tymor hir, ein strategaeth yw gwneud gwell defnydd o'n hadnoddau presennol drwy uchafu'r defnydd cynaliadwy ohonynt ac integreiddio ein rhwydwaith ymhellach. Mae'r strategaeth hon wedi ei chyfunioni â'n cynlluniau ar gyfer ystwythder cyflenwad, a bydd ein buddsoddiadau mewn cyflenwi dŵr yn darparu ystwythder a buddion o ran cyflenwad a galw.

Mae ein cynllun terfynol wedi ei baratoi ar y sail na ddylid caniatáu i dargedau blynyddol ynglŷn â gollyngiadau godi yn y dyfodol. Y mae'n glir o'r adborth i'r cynllun drafft fod strategaeth o ganiatáu i dargedau ynglŷn â gollyngiadau godi yn un sy'n annerbyniol i'n cwsmeriaid, i'n budd-ddeiliaid ac i'r Llywodraeth. Mae ein polisi o beidio â chaniatáu i dargedau ynglŷn â gollyngiadau godi yn y dyfodol yn un sy'n gyson â'r uchelgais sy'n cael ei egluro yn ein Datganiad o Gyfeiriad Strategol. Effaith y penderfyniad polisi hwn ar fuddsoddi yw y bydd angen adnewyddu mwy o brif bibellau yn y tymor byr er mwyn atal dirywiad oherwydd gollyngiadau yn y tymor hirach.

Isod fe amlinellir yr amcanion strategol sydd wedi pennu ffurf ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP). Mae'r amcanion hyn wedi eu cyfunioni â'n Datganiad o Gyfeiriad Strategol ar gyfer 2010–2035, ac yn rhan o'r meini prawf asesu a ddefnyddir yn Asesiad Amgylcheddol Strategol y WRMP.

Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr — Amcanion strategol

Nod cyffredinol y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yw diffinio sut y byddwn yn bodloni galw, yn awr ac yn y dyfodol, mewn modd sydd mor effeithlon ac mor gynaliadwy ag sy'n bosibl, tra'n cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol a gofynion rheoleiddiol.

Amcanion strategol y cwmni o ran cynllunio ar gyfer y galw am gyflenwad dŵr yw:

- Mabwysiadu'r strategaeth ar gyfer mynd i'r gost ariannol, gymdeithasol ac amgylcheddol leiaf sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd a chynnal y targed ynglŷn â chapasiti dros ben drwy gydol y cyfnod cynllunio hyd at 2035
- Cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol, a chyflawni rhwymedigaethau amgylcheddol, ym mhopeth yr ydym yn ei wneud
- Parhau i hybu rhaglenni effeithlonrwydd dŵr ac ailgylchu dŵr ar gyfer busnesau a defnyddwyr
- Cyflynu'r gwaith o osod mesuryddion dŵr a sefydlu rhestrau prisiau mwy soffistigedig
- Parhau i ostwng lefel y gollyngiadau o'n rhwydwaith
- Atgyfnerthu ein rhwydwaith er mwyn osgoi toriadau yn y cyflenwad
- Cynllunio a chynnal ein hadnoddau dŵr a'n systemau cyflenwi, gyda'r nod o gael dim mwy na thri gwaharddiad ar ddefnyddio pibellau dŵr (*hosepipes*) mewn 100 mlynedd
- Cynyddu'r posibiladau o drosglwyddo dŵr ar draws ein rhanbarth ein hunain a rhwng cwmnïau dŵr
- Datblygu adnoddau dŵr newydd pan fo'r gofyn
- Sicrhau nad oes methiannau o ran ansawdd dŵr

Wrth geisio cyflawni'r amcanion hyn, byddwn yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i:

- Gostau a buddion y gwahanol ddewisiadau ynglŷn â buddsoddi
- Parodrwydd ein cwsmeriaid i dalu am welliannau
- Rhagamcaniadau o dwf hirdymor mewn galw

- Dibynadwyedd hirdymor arbedion mewn galw oherwydd mesurau effeithlonrwydd dŵr
- Y perygl i'n system gyflenwi oherwydd effeithiau ac ansicrwydd newid hinsawdd
- Ôl troed carbon ein gweithrediadau cyflenwi dŵr
- Effeithiau deddfau amgylcheddol newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes
- Y lefel gynaliadwy o echdyniadau dŵr
- Yr amser sy'n ofynnol ar gyfer cynllunio a chyflawni unrhyw gynllun adnoddau dŵr newydd
- Y peryglon sy'n gysylltiedig â chyflawni'r strategaeth ddewisedig o fewn y cyfnodau amser gofynnol
- Hyblygrwydd cymharol y dewisiadau, a'u gallu i'n galluogi i ymaddasu i amgylchiadau newidiol yn y dyfodol

Y strategaeth fyrdymor

Ein strategaeth fuddsoddi nesaf ar gyfer cynnal diogelwch cyflenwad hyd at 2015 yw:


- Atal colli cynnyrch defnyddiadwy oherwydd dirywiad mewn ansawdd dŵr, drwy ein strategaeth ynglŷn â thrin nitrad a chymysgu.
- Lleihau galw drwy ostwng gollyngiadau, a gosod targed gollyngiadau newydd i ni'n hunain o 453 miliwn litr y dydd erbyn 2015. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy reoli gollyngiadau a phwysau mewn modd mwy gweithredol.
- Lleihau galw drwy gyflymu'r broses o osod mesuryddion mewn cartrefi, drwy hyrwyddo ein cynllun mesuryddion am ddim, a thrwy bolisi pwrpasol o osod mesurydd pan fydd y preswlydd yn newid — a thrwy hynny gyflawni lleihad mewn galw o tua 1.5 miliwn litr y dydd erbyn 2015. Rydym yn cyfyngu ein polisi ynglŷn â newidiadau preswlydd i barth Dwyrain Canolbarth Lloegr ar gyfer Rhaglen Rheoli Asedau (AMP) 5, er mwyn i ni allu cronni data cadarn ynglŷn â chostau a buddion fel sail i'n strategaeth yn y tymor hirach.
- Lleihau galw drwy gynyddu ein gweithgareddau effeithlonrwydd dŵr, er mwyn cyflawni ein harbedion targed o 16 miliwn litr y dydd yn ystod AMP5.

Nid oes unrhyw gynlluniau adnoddau dŵr newydd yn cael eu darparu i bwrpas cydbwysu cyflenwad a galw yn ystod AMP5. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod ein cynllun buddsoddi mewn cydbwysu cyflenwad a galw wedi ei integreiddio â rhannau eraill o'n Cynllun Busnes, sy'n cynnwys buddsoddi mewn cynlluniau ar gyfer cynyddu ein triniaeth strategol a'n capasiti dosbarthu. Mae'r cysylltiadau hyn gyda:

- Strategaeth ystwythder parth Dwyrain Canolbarth Lloegr a Hafren, sy'n cynnwys prosiect allweddol i ddyblygu darn o'n Traphont Dŵr yn Nyffryn Derwent er mwyn rhyddhau adnoddau a chapasiti triniaeth sydd ar gael yn y rhan ogleddol o'n rhanbarth. Bydd y cynllun hwn hefyd yn darparu buddion o ran cyflenwad a galw wrth i ni fynd i mewn i AMP6, gan y bydd yn caniatáu i ni wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ac isadeiledd strategol presennol er mwyn cynyddu maint y dŵr sydd ar gael i'w ddefnyddio.
- Strategaeth ystwythder Birmingham, sy'n cynnwys ffynhonnell dŵr daear newydd yn Edgbaston a dau gynllun newydd ar gyfer storio ac adennill dyfrhaen, er mwyn darparu ystwythder wrth gefn yn wyneb y posibilrwydd o golli gwaith trin dŵr Frankley. Bydd y cynlluniau hyn yn darparu, yn ogystal, gynnydd mewn cynnyrch defnyddiadwy unwaith y byddant yn weithredol yn AMP6.

- Y strategaeth cynnal cyfalaf, sy'n cynnwys buddsoddi mewn adnewyddu prif bibellau er mwyn cynnal eu defnyddioldeb, fel y'i mesurir gan amllder byrstiau a thoriadau cyflenwad nas cynlluniwyd.
- Y strategaeth ansawdd dŵr, sy'n cynnwys buddsoddi mewn cynlluniau i drin neu gymysgu dŵr mewn ffynonellau sydd â chrynodeiadau uchel o nitrad.

Rydym yn dangos, isod, sut y mae ein strategaeth fuddsoddi gyflawn yn mynd i'r afael â'r pwysau tymor canol a mwy hirdymor ar y cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw yn ein rhanbarth. Mae'r ffigyrau'n dangos ein hamcangyfrifon gorau o bwysau ar ein galw a'n cyflenwad i'r dyfodol, ynghyd â manteision yr atebion o ran buddsoddi. Mae'r ffigyrau hyn yn dangos sut mae'r cynlluniau sydd wedi eu cynnwys yn ein Cynllun Busnes er mwyn gwella ystwythder cyflenwad, gwella ansawdd dŵr a chynyddu buddsoddiant mewn adnewyddu prif bibellau wedi eu hintegreiddio â'n strategaeth hirdymor ynglŷn â chyflenwad a galw.



[Text from graph:

English

Future demand changes MLD


DI at 2009–10
Household demand
Commercial demand
Water efficiency activities
Additional metering
Network deterioration and NRR
Active leakage control
Pressure management
Mains renewal
DI at 2014–15
Household demand
Commercial demand

Welsh

Newidiadau mewn galw i'r dyfodol Miliynau o Litrau y Dydd

Mewnbwn defnyddiadwy yn 2009–10
Galw mewn cartrefi
Galw masnachol
Gweithgareddau effeithlonrwydd dŵr
Metru ychwanegol
Dirywiad yn y rhwydwaith ac NRR
Rheolaeth weithredol dros ollyngiadau
Rheoli pwysau
Adnewyddu prif bibellau
Mewnbwn defnyddiadwy yn 2014–15
Galw mewn cartrefi
Galw masnachol

Water efficiency activities	Gweithgareddau effeithlonrwydd dŵr
Additional Metering	Metru ychwanegol
Network deterioration and NRR	Dirywiad yn y rhwydwaith ac NRR
Active leakage control	Rheolaeth weithredol dros ollyngiadau
Pressure management	Rheoli pwysau
Mains renewal	Adnewyddu prif bibellau
DI at 2019–20	Mewnbwn defnyddiadwy yn 2019–20]



[Text from graph:

English

Future supply changes

MLD

DO at 2009–10
 Climate change impacts
 Sustainability reductions
 Deteriorating water quality
 Water Quality schemes
 DO at 2014–15
 Climate change impacts
 DVA duplication scheme
 Edgbaston groundwater source
 Highters Heath ASR
 Minworth ASR
 DO at 2019–20

Welsh

Newidiadau mewn galw i'r dyfodol

Miliynau o Litrau y Dydd

Cynnyrch defnyddiadwy yn 2009–10
 Effeithiau newid hinsawdd
 Gostyngiadau mewn cynaliadwyedd
 Dirywiad mewn ansawdd dŵr
 Cynlluniau Ansawdd Dŵr
 Cynnyrch defnyddiadwy yn 2014–15
 Effeithiau newid hinsawdd
 Cynllun dyblygu Traphont Dŵr Dyffryn Derwent
 Ffynhonnell dŵr daear Edgbaston
 Cynllun Storio ac Adennill Dyfrhaen Highters Heath
 Cynllun Storio ac Adennill Dyfrhaen Minworth
 Cynnyrch defnyddiadwy yn 2019–20]

Bydd ein strategaeth yn sicrhau bod y dŵr sydd ar gael gennym i'w ddefnyddio yn ddigon i ddiwallu galw i'r dyfodol a chyrraedd y targed ar gyfer capasiti dros ben. Yn y tymor byr, rydym yn rhagamcanu gostyngiad yn y dŵr a fydd ar gael i'w ddefnyddio, ond bydd ein strategaeth yn glŷn â gollyngiadau a rheoli galw'n golygu ein bod yn cynnal gwarged o ran cyflenwad a galw.

Dylanwadwyd ar ein strategaeth gan senarios effaith newid hinsawdd UKCIP02 (Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU 02). Rydym wedi rhoi prawf ar sensitifrwydd ein cynllun buddsoddi yn AMP5 i senarios effaith UKCIP02, ac mae hyn wedi dangos mai'r newid mwyaf sylweddol yw'r un i'n targed ar gyfer gollyngiadau yn 2014/15. Mae ein strategaeth yn cynnwys buddsoddi er mwyn gwrthbwysu effaith newid hinsawdd, ac mae dadansoddiad sensitif yn dangos y byddai ein targed ar gyfer gollyngiadau yn 2015 yn gostwng 16 miliwn litr y dydd, i 469 miliwn litr y dydd, os ydym yn anwybyddu'r effeithiau hynny.

Y tu hwnt i 2015, bydd ein cynlluniau ystwythder cyflenwad yn cyflawni cynnydd yn y dŵr sydd ar gael gennym i'w ddefnyddio, tra bod ein buddsoddi ynglŷn â gollyngiadau, adnewyddu prif bibellau a rheoli galw'n parhau i leihau galw.

Y strategaeth ar gyfer y tymor hirach

Mae ein hamcangyfrifon gorau o bwysau ar gyflenwad a galw i'r dyfodol yn dangos y bydd arnom angen adnoddau dŵr a chapasiti trin ychwanegol yn y tymor hirach. Mae'r cynlluniau sy'n cael eu cyflawni drwy ein strategaeth ynglŷn ag ystwythder cyflenwad yn darparu budd o ran cynnyrch defnyddiadwy, ac mae'r rhain yn rhan allweddol o'n cynlluniau mwy hirdymor ar gyfer cyflenwad a galw. Fodd bynnag, rydym wedi canfod angen tebygol am ostyngiadau pellach mewn gollyngiadau, a chynlluniau adnoddau dŵr pellach, yn ystod y cyfnod 2025–2035. Ceir disgrifiad mwy manwl o'r strategaeth fuddsoddi 25 mlynedd ar gyfer pob parth adnoddau dŵr ym mhennod 17.

Mae ein dadansoddiad yn dangos mai'r perygl mwyaf sylweddol i'n cydbwysedd hirdymor rhwng cyflenwad a galw yw effaith newid hinsawdd; rydym wedi rhoi prawf ar hyn gan ddefnyddio senarios UKCIP02. Mae'r senarios hyn yn dangos bod posibilrwydd y gallai ein gallu i greu cynnyrch defnyddiadwy ddiodef gostyngiad o hyd at 115 miliwn litr y dydd erbyn 2020. Mae canlyniadau ein dadansoddiad wedi eu rhannu ag Asiantaeth yr Amgylchedd, ac rydym wedi dilyn y dull arfer gorau y maent yn ei argymhell. Nid oedd canlyniadau UKCIP09 ar gael adeg paratoi ein WRMP terfynol, ond rydym yn gweithio gydag UKCIP, Asiantaeth yr Amgylchedd a budd-ddeiliaid eraill i gynnal dadansoddiad o effeithiau goblygedig y canlyniadau senario diweddaraf.

Mae nifer o elfennau ansicrwydd eraill o ran cynllunio sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, ac a allai gael effaith sylweddol ar y strategaeth 25 mlynedd. Yn neilltuol:

- gofynion Rhaglen Amgylchedd Cenedlaethol Asiantaeth yr Amgylch i'r dyfodol
- Strategaeth Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Rheoli Echdyniadau Dalgylch (CAMS)
- effeithiau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr

Bydd yr elfennau ansicrwydd ynglŷn â chynllunio'n cael eu rheoli drwy gyfrwng cylch cynllunio pum mlynedd y WRMP, a byddwn yn cadw ein strategaeth hirdymor dan arolwg. Mae'r elfennau ansicrwydd hyn yn tanlinellu pwysigrwydd dechrau gwaith dichonolrwydd ar gyfer y cynlluniau mwy hirdymor cyn gynted ag y bo modd.

Cynlluniau adnoddau newydd

Yr oedd ein cynllun drafft yn cynnwys gwariant a oedd yn gysylltiedig â chynlluniau cyflenwad a galw yn Nwyrain Canolbarth Lloegr, yng ngwaith trin dŵr Church Wilne ac ynglŷn â dŵr daear yn Nottingham. Bellach, nid yw'r ddau gynllun hyn yn cael eu cynnwys yn ein strategaeth, o ganlyniad i'n hasesiad diwygiedig o effeithiau newid hinsawdd ar gynnyrch defnyddiadwy, ac i'n rhagolygon diwygiedig ynglŷn â galw. O ddefnyddio'r fethodoleg glawiad/dŵr ffo gyflawn, gwelir bod y golled oblygedig o gynnyrch defnyddiadwy yn Nwyrain

Canolbarth Lloegr yn llawer llai difrifol na'r asesiad ohoni a wnaed ar gyfer y cynllun drafft. O dan ein hasesiad diweddaraf, rydym yn dangos y gallwn gynnal y targed ar gyfer capasiti dros ben yn Nwyrain Canolbarth Lloegr hyd at 2020 heb fod angen am y cynlluniau ychwanegol hyn.

Bellach, mae ein cynllun mwy hirdymor ar gyfer cyflenwad a galw wedi ei integreiddio â'n strategaeth ystwythder. Mae'r strategaeth ystwythder yn dibynnu ar:

- ddyblygu Traphont Dŵr Dyffryn Derwent o Kings Corner i Hallgates
- ffynhonnell dŵr daear newydd ger ein cronfa storio dŵr yn Edgbaston
- cynllun newydd yn Highters Heath ar gyfer storio ac adennill dyfrhaen; a
- chynllun newydd ym Minworth ar gyfer storio ac adennill dyfrhaen.

Bydd y cynlluniau hyn nid yn unig yn gwella ystwythder ein rhwydwaith cyflenwi, ond hefyd yn darparu cynnyrch defnyddiadwy ychwanegol i barthau Dwyrain Canolbarth Lloegr, Hafren a Birmingham, ac maent yn rhan allweddol o'n strategaeth ynglŷn â chyflenwad a galw.

Targedau ar gyfer gollyngiadau

Mae ein cynllun hirdymor yn seiliedig ar bolisi o beidio â chaniatáu i'n targed ar gyfer gollyngiadau godi unwaith y bydd wedi ei yrru i lawr i lefel isel newydd. Mae'r adborth i'r ymgynghoriad ynglŷn â'n cynllun drafft wedi ei wneud yn glir fod cynigion i ganiatáu i ollyngiadau godi yn y dyfodol yn annerbyniol i'n cwsmeriaid, i'n budd-ddeiliaid ac i'r Llywodraeth. Mae polisi o beidio â chaniatáu i ollyngiadau godi yn un sy'n gyson â'r dyheadau a restrwyd yn ein Datganiad o Gyfeiriad Strategol.

Er mwyn cyflawni'r amcan hirdymor hwn, mae arnom angen buddsoddi mewn adnewyddu prif bibellau ar raddfa sy'n atal y cynnydd mewn gollyngiadau a geir o ganlyniad i ddirywiad prif bibellau sy'n heneiddio a phibellau cyflenwi cwsmeriaid. Mae ein strategaeth ynglŷn â chyflenwad a galw'n cynnwys buddsoddi mewn adnewyddu prif bibellau er mwyn sicrhau bod modd cyflawni gostyngiadau mewn gollyngiadau, yn ystod cyfnodau diweddarach, am y gost isaf. Os byddwn yn gohirio'r gwaith byrdymor hwn o adnewyddu prif bibellau, yna bydd angen mwy fyth o fuddsoddi yn ystod cyfnodau diweddarach er mwyn sicrhau bod modd cyrraedd targedau i'r dyfodol ynglŷn â gollyngiadau.

Yn ei benderfyniad terfynol ar gyfer 2009, ni wnaeth Ofwat unrhyw lwfans o ran terfynau prisiau am yr elfen honno o fuddsoddi mewn adnewyddu prif bibellau, yn AMP5, yr oeddem wedi cynnig y byddai'n darparu buddion AMP6 ac AMP7 o ran gollyngiadau. Yn y tymor byr, rydym yn credu y gallwn wneud iawn am hyn drwy ddefnydd pellach fyth o reolaeth dros bwysau yn AMP5 er mwyn atal dirywiad yn y sefyllfa o ran gollyngiadau. Yn yn y tymor hirach, bydd arnom angen cynnydd mewn buddsoddi yn y gwaith o adnewyddu prif bibellau yn AMP6 os ydym am gyflawni ein targedau 25 mlynedd ar gyfer gollyngiadau.